GPC Geiriadur Prifysgol Cymru
A Dictionary of the Welsh Language

Sut y gall GPC Ar Lein neu Ap GPC eich helpu?

Ydych chi'n astudio'r Gymraeg? Mae GPC yn gallu cynnig pob math o help.
Geiriadur Cymraeg-Cymraeg yw GPC, ond ceir cyfystyron Saesneg hefyd. Mae'n ddelfrydol i astudio geiriau neu ymadroddion Cymraeg penodol, ac i chwilio am eiriau yn y diffiniadau / cyfystyron Saesneg.

Beth yw ystyr *amddias* yng ngwaith Aneirin?



Rwyf angen gair arall yn lle *gwych* am 'excellent'. Ceir digon o ddewis yn GPC:



Lle mae'r gair Saesneg ar wahân ar y dechrau, fel uchod, mae fel arfer yn gyfystyr â'r Gymraeg. Rhestrir y rhain ar ddechrau'r canlyniadau. Ymhlith y canlyniadau, ceir cyfystyron fel 'gorchestol', 'penigamp', 'anfarwol', 'arbennig', 'ardderchog', 'bendigedig', 'dyrchafadwy', 'rhagorol', 'uchelradd', ac 'ysblennydd'.

Ydych chi'n cofio beth yw ystyr *breuoledd* yng nghywydd 'Mis Mai a Mis Tachwedd' Dafydd ap Gwilym?

Rwy'n defnyddio *traethawd* o hyd — a oes gair arall?



Cynigir sawl posibilrwydd yn y diffiniad Cymraeg, gan gynnwys 'gwaith ysgrif-enedig', 'cyfansoddiad', 'astudiaeth', 'papur', 'dadansoddiad', ac 'adroddiad'.

Beth am *bral* (ll. *brale*) yn *Martha, Jac a Shanco*?



-n- neu *-nn-*?



Os teipiwch air nad yw yn y Geiriadur, awgrymir geiriau tebyg

Beth yw cenedl y gair *clust*?



Os tapiwch fyrfodd yn yr ap (neu hofran drosto gyda'r 'cursor' yn GPC Ar Lein), bydd esboniad ohono'n ymddangos.